# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Hydref 10ed 2018.

**Presennol.**

Cyng C.Dixon,Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng C.Edwards, Cyng P.Jenkins

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 13eg Medi 2018.**

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Diffribilydd**- Mae oedi yn parhau i osod y diffibriliwr i neuadd y pentref. Mae'r clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Gwasanaeth Ambiwlans a rhagwelir y bydd yr offer hwn wedi osod yn ystod y pythefnos nesaf.

**Materion priffyrdd.**

**Hen bont Dolgefeiliau**- mae'r Asiantaeth Gefnffyrdd wedi clirio rhywfaint o'r ffosllan sy'n rhwystro gyrrwyr modur sy'n gadael y gyffordd i ffordd yr A470. Mae'r cyngor yn teimlo y dylid gwneud gwaith pellach i sicrhau fod gan yrrwyr linellau gweledEdd pellach wrth ddefnyddio'r gyffordd.

**Maes parcio gyferbyn junction A470/Maes picnic Ty'n y Groes** – Mae Mr M.J.Morris o'r Asiantaeth Gefnffyrdd wedi cydnabod y broblem yn y lleoliad yma a bydd yn trefnu i achwilio'r ffens ac unrhyw waith adfer fel yr angen.

**Gor yrru Ganllwyd** – Mae PCSO G. Jones wedi cysylltu a'r cyngor, a bydd PCSO Jones yn sicrhau fod adran "Arrive Alive" yn parhau i ddod i'r pentref er mwyn ddal modurwyr sydd yn gyrru.

Mae'n debyg fod rhaid i "Arrive Alive" ddod i'r pentref beth bynnag 2 waith mewn mis i gyflawni'r rheolaeth gyfreithol presennol.

Bydd PCSO Jones yn gwneud gwaith ychwanegol i'r Arrive Alive wrth ddod i'r pentref ei hun i leihau achosion gor-yrru.

**Tyddyn Gwladys-** Mae Gwion Jones a Nia Davies o CNC wedi cysylltu a'r cyngor ynglyn a'r mater yma. Mae'r CNC yn cyd weithio a'r heddlu er mwyn datrus y broblem ymddygiad gwrth gymdeithasol.

Mae Nia Davies angen rhywyn sydd a tystiolaeth i'r achos yma gysylltu a hi neu PC1847 Lloyd o Heddlu'r Gogledd i drafod y mater.

Bydd y clerc yn cadw cyswllt a CNC ynglyn y mater yma.

**Cynghorydd Sir.**

Dywedodd Cyng Jenkins fod Cyngor Gwynedd am ddioddef gostyngiad o 1% (£10,000,000) mewn cyllid (oddiwrth y Cynulliad yn Caerdydd) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fydd yn arwain at dorriadau pellach mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'r Cyngor Sir wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghoriadau i drafod effeithiau a difrifoldeb y dorriadau ariannol ac i fesur sut y byddai'r cyhoedd am i'r toriradau gael eu gwneud.

Mae’r cynghorwr yn annog pawb i fynychu’r cyfarfodydd yma er mwyn cael ei dweud ar y mater.

Ffordd Lefel- mae gwaith ar y ffordd wedi cael ei gwblhau gan y Cyngor ac mae’r ffordd yn awr yn agored i’r cyhoedd.

**Contract cyflogaeth.**

Er mwyn cydymffurfio â'r archwiliad a'r rheolau ariannol mae'r Cyngor a'r Clerc wedi cytuno ar a llofnodi contract cyflogaeth.

**Materion ariannol.**

Cyllid misol:

**Cyson Banc: Medi 2018**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau’r Mis:** | **£5638.43** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Praesept Cyngor Gwynedd** | **£1500.00** |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Cynnal&chadw llwybrau** | **£954.00** |
| **Llogi’r neuadd** | **£225.00** |
| **SADS Diffibrilydd** | **£50.00** |
| | |
| **Yn y Banc diwedd mis** | **£5809.43** |

Mae'r aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

**Awdit 2018**—Mae'r cyngor wedi derbyn nodyn fod yr awdit ar gyfer y flyddyn 2017-18 wedi cwblhau.

Mae'r hysbysiad diwedd yr archwiliad wedi arddangos ar hysbysfwrdd neuadd y pentref.

**Materion yn codi-**

Datganiad llywodraethiant blynyddol heb ei gwblhau-bydd rhaid i'r cyngor sicrhau bod yr holl gwestiynau ar y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael eu hateb.

Cofnodion cyfreithion heb eu rhifo- dylai'r cyngor sicrhau bod tudalennau paragraffau'r dalennau rhydd wedi eu rhifo a'u llofnodi gan y person sy'n llofnodi'r cofnodion.

Cofrestr asedau- rhaid i'r cyngor ddiweddaru ei gofrestr asedau sefydlog i gynnwys dyddiad caffael,cost prynu a lleoliad po based cyn gynted a phosib.

Ar ol trafodaeth cafodd y ffurflen flynyddol ei chymeradwyo a'i derbyn gan y cyngor.

Mae'r cyngor wedi derbyn ad daliad o £577.10 gan Gyngor Gwynedd ynglyn cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus

**Cyfrif Banc HSBC** – Bydd rhaid i aelodau'r cyngor lenwi ffurflen 'mandate' Banc HSBC er mwyn cydymffurfio a polisi 'Safeguarding' y Banc. Bydd y clerc yn mynd a manylion y cyngor i'r Banc.

**Toiled Ganllwyd**

Toiled Ganllwyd- Yn dilyn trafodaeth mae'r cyngor wedi cytuno talu £250 i Cyngor Gwynedd er mwyn parhau mewn partneriaeth a nhw gyda i gadw toiled y pentref yn agored.

**Llythyrau & E-byst.**

Dim

**Unrhyw fater arall.**

Dim.